**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**(Committee Room 1/2 - Port Talbot Civic Centre)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 14 Tachwedd 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd J.D.Morgan** |
| **Cynghorwyr**: | S.apDafydd, M.Harvey, J.Hurley, S.Miller, S.Pursey, S.Renkes, A.J.Taylor a/ac S.K.Hunt |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, C.Furlow-Harris, S.Curran a/ac A.Manchipp |

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Medi 2019 fel cofnod cywir.

Nododd yr aelodau'r diweddariadau canlynol:

- Yn dilyn cyfarfod diweddar, cadarnhaodd Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) ei fod yn cytuno â barn yr aelodau, sef y dylai CThEM ymdrin â'r lwfans gofalwr fel ad-daliad ac na ddylid ei drethu. Awgrymodd yr IRPW y dylai awdurdodau lleol ysgrifennu at CThEM ar y cyd. Roedd awdurdodau wedi cytuno i ddarparu templed ar gyfer y llythyr hwn, fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i dderbyn hyd yn hyn. Byddai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd felly'n llunio ymateb ac yn ei ddosbarthu i awdurdodau lleol eraill er gwybodaeth.
- Mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol y pwyllgor, cytunwyd cyflwyno hyn i'r cyngor er gwybodaeth.

2. **DIWEDDARIAD AR GRŴP CYFEIRIO TGCH YR AELODAU**

Rhoddwyd adroddiad cynnydd y Grŵp Cyfeirio TG i'r pwyllgor. Trafododd yr aelodau'r defnydd o'r cais Gwaith Achos, yr oedd

aelodau wedi derbyn cyflwyniad arno'n flaenorol. Cytunwyd y dylid anfon yr wybodaeth hon ymlaen at y grwpiau gwleidyddol ac y gofynnir iddynt asesu faint o ddiddordeb sydd ynddo cyn ei ystyried ymhellach.

Mewn perthynas â threialu Office 365, gofynnodd yr aelodau pryd y byddai hyn yn cael ei gyflwyno. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y gofynnir i'r Rheolwr TGCh am gynllun cyflwyno.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 3. AROLWG DRAFFT AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG 2019/20

Nododd y pwyllgor yr arolwg drafft i aelodau, a atodwyd i'r adroddiad a ddosbarthwyd, y disgwylir y byddai'n cael ei gwblhau'n gynnar yn 2020. Nododd yr aelodau y byddai'r arolwg wedi'i gwblhau ar sail 1 i 1 gyda swyddogion o'r Gwasanaethau Democrataidd.

Yn ogystal â'r cwestiynau a gynhwysir yn y ddogfen ddrafft, gofynnodd yr aelodau a ellid ychwanegu cwestiynau ynghylch y canlynol:

- Problemau a brofir gan yr aelodau mewn perthynas ag anableddau:
- Amserau cwrdd:
- Unrhyw broblemau cydraddoldeb:
- Rhagor o gwestiynau penodol ynghylch defnydd yr aelodau o TG:
- Defnyddioldeb yr arolwg yn ôl yr aelodau.

Yn dilyn y trafodaethau uchod:

**PENDERFYNWYD:** 1. Yn dilyn ychwanegu'r cwestiynau mewn perthynas â'r uchod, yr eir ati i dreialu'r arolwg;

2. Y bydd Cadeirydd y Gweithgor Anabledd yn ysgrifennu at yr holl aelodau yn annog y rheini â phroblemau anabledd i drafod y fath anableddau, ac a ydynt yn effeithio ar gyfranogiad yr aelodau ym musnes y cyngor, â Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn darparu

cymorth iddynt gyflawni eu dyletswyddau fel cynghorwyr.

4. **<u>DIWEDDARIAD AR Y GRŴP ARCHWILIO ANABLEDD</u>**

Diweddarwyd yr aelodau ar waith y Grŵp Archwilio Anabledd. Nodwyd y byddai'r grŵp yn cwrdd nesaf â swyddogion o'r adran stadau a'r gweithgor llety i drafod y cynigion a gyflwynwyd gan Proudlock Associates mewn perthynas â'r adeilad dinesig yng Nghastell-nedd a Phort Talbot. Yna, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn i'w ystyried.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

5. **<u>DIWEDDARIAD YN DILYN CYFARFOD Â PHANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL AR 22 HYDREF 2019 AR ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL, CHWEFROR 2020</u>**

Derbyniodd yr aelodau gopi o adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) fel atodiad i'r adroddiad a ddosbarthwyd. Roedd hwn yn nodi ei gynigion ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau Prif Gynghorau yng Nghymru ar gyfer 2020/21.

Tynnwyd sylw'r aelodau at y cynnig i gynyddu lwfans sylfaenol aelodau £350 y flwyddyn yn effeithiol o'r flwyddyn ariannol newydd. Nododd y pwyllgor fod cyfradd eu cydnabyddiaeth ariannol yn llai na'r meincnod. Cytunodd y pwyllgor y dylai unrhyw gynnydd ddechrau yn y flwyddyn ddinesig newydd.

Mewn perthynas â darparu digon o gymorth i aelodau, roedd yr ystod o gefnogaeth sydd eisoes ar gael wedi'i nodi yn yr adroddiad ac fe'i nodwyd.

Nododd y pwyllgor fod yr IRPW wedi gofyn am hyrwyddo lwfans gofalwr ymhellach er mwyn annog gofalwyr i wneud cais amdano.

Ceisiwyd eglurhad ynghylch yr hyn yr oedd yr IRPW yn gofyn amdano o ran ffonau.  Holodd aelodau a oedd posibilrwydd trosglwyddo'r cardiau sim o'r i-pads i ffonau symudol.  Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach, a’i fwydo i'r Grŵp Cyfeirio TG er mwyn iddynt ei ystyried.

**PENDERFYNWYD**: Y byddai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn ymateb i ymgynghoriad yr IRPW gan nodi bod y cynnydd yn y lwfans sylfaenol yn ymddangos yn dderbyniol ond y dylai fod yn berthnasol o'r flwyddyn ddinesig newydd ac nid y flwyddyn ariannol newydd. Y byddai adroddiad drafft yr IRPW yn cael ei ddosbarthu i'r holl aelodau, gyda nodyn i'w hatgoffa y gall aelodau ymateb yn unigol os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

6. **BLAENRAGLEN WAITH 2019-20**

**PENDERFYNWYD**: Y dylid nodi'r Blaenraglen Waith ac ychwanegu'r Grŵp Archwilio Anabledd ac Arolwg yr Aelodau at y daflen gynllunio ar gyfer 3 Mawrth.

**CADEIRYDD**